



## Cais i fod yn aelod o Gyngor Gwyddoniaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)

Teitl:

Enw cyntaf:

Cyfenw:

Cyfeiriad cartref (yn llawn):

Cod post:

Rhif ffôn:

Proffesiwn:

### Prif gyflogaeth:

Cyfeiriad gwaith (yn llawn):

Rhif ffôn:

Rhif ffôn symudol:

Cyfeiriad e-bost (cartref):

Cyfeiriad e-bost (gwaith):

Prif feysydd arbenigedd cyfredol:

### Datganiad Ategol

**Rhowch dystiolaeth o sut rydych chi'n bodloni pob un o'r meini prawf dethol ar gyfer y swydd rydych chi'n gwneud cais amdani (mae'r meini prawf wedi'u crynhoi uchod).**

**Teipiwch eich gwybodaeth yn yr adrannau mewn blychau isod.**

Cofiwch gadw at y terfynau geiriau ar gyfer pob adran – efallai na fydd testun ychwanegol dros y terfyn geiriau yn cael ei asesu.

Dylech ddisgrifio'ch sgiliau a'ch profiad eich hun yn y meysydd hyn a sut y byddech chi'n dod â'r profiad hwn i waith y Cyngor. Defnyddiwch enghreifftiau i gefnogi'ch disgrifiad sy'n dangos sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf. Wrth wneud hynny, efallai yr hoffech gyfeirio at:

- eich cymwysterau neu hyfforddiant addysgol/proffesiynol
- eich profiad mewn swyddi/safleoedd cyfredol neu flaenorol (cyflogedig neu wirfoddol),
- enghreifftiau o'r tu allan i gyflogaeth brif ffrwd, er enghraifft, i ddarparu cefnogaeth i'r teulu ac ati.

Gallwch chi atodi CV (uchafswm 4 ochr A4, lleiafswm maint ffont 10) a rhestr o gyhoeddiadau (uchafswm 2 ochr A4, lleiafswm maint ffont 10).

Wrth gyfeirio at CV sydd ynghlwm, cofiwch gyfeirio at yr adran berthnasol yn eich CV yn hytrach na dweud "gweler y CV ynghlwm" yn unig. Mae rhestr o'ch cyhoeddiadau perthnasol yn ddefnyddiol.

**Maen Prawf 1: Tystiolaeth o ddeall sut y gellir defnyddio gwyddoniaeth i ddylanwadu ar bolisi a'i brofi ac i gyflawni effeithiau pendant er budd pobl (hyd at 250 gair).**

## Swyddogol Sensitif: Penodiadau (ar ôl eu cwblhau)

**Maen Prawf 2:** Tystiolaeth o gyfraniad effeithiol i grwpiau amlddisgyblaethol sy'n cynghori ar gwestiynau gwyddonol neu dechnegol cymhleth a/neu strategol (hyd at 250 gair).

**Maen Prawf 3:** Tystiolaeth o sgiliau dadansoddi a barnu cryf, gallu i feddwl yn annibynnol a bod yn agored i her (hyd at 250 gair).

**Maen Prawf 4:** Sgiliau cyfathrebu cryf gyda sgiliau rhyngpersonol datblygedig, a'r gallu i weithio ar y cyd (hyd at 250 gair).

**Maen Prawf 5:** Esboniwch sut rydych chi'n bodloni o leiaf dau o'r meini prawf canlynol (hyd at 250 gair fesul maen prawf):

- i. Lefel uchel o arbenigedd mewn maes perthnasol gyda thystiolaeth o effaith genedlaethol neu ryngwladol.
- ii. Ehangder o arbenigedd a rhwydweithiau sydd â phrofiad yn rychwantu disgyblaethau sy'n berthnasol i'r ASB.
- iii. Persbectif gwybodus ar fuddiannau defnyddwyr a dinasyddion a phrofiad o sut y gellir adlewyrchu'r buddiannau hyn yng ngwaith y Cyngor.
- iv. Y gallu i ymgysylltu a chyfathrebu â chynulleidfaoedd nad ydynt yn rhai arbenigol

## Swyddogol Sensitif: Penodiadau (ar ôl eu cwblhau)

**Hoffech chi gael eich ystyried ar gyfer penodiad i Bwyllgorau Cynghori Gwyddonol eraill yr ASB os yw'r panel o'r farn bod eich cais yn addas?**

Hoffwn

Na hoffwn

### Penodiadau Pwyllgor eraill

Nodwch fanylion unrhyw benodiadau Pwyllgor

<b>Pwyllgor, Adran y Llywodraeth a/neu'r Corff Cyhoeddus</b>	<b>Manylion y penodiad a'r swydd dan sylw (er enghraifft Cadeirydd, aelod ac ati) a'r tâl cydnabyddiaeth a gafwyd</b>	<b>Dyddiad dechrau</b>	<b>Dyddiad gorffen</b>

### Canolwyr

A fyddech cystal â nodi manylion dau berson y gellir gofyn iddynt fod yn ganolwyr ar eich rhan. Cofiwch gynnwys enw, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn a chyfeiriad. Rhaid bod ganddyn nhw wybodaeth awdurdodol a phersonol am eich cyflawniadau. Rhaid i un ohonynt fod yn gyflogwr presennol neu'n rhywun sy'n gallu rhoi sylwadau ar eich arbenigedd.

**Canolwr cyntaf:**

**Ail ganolwr:**

### Hysbysebu

Sut glywsoch chi am y swydd hon?

## Swyddogol Sensitif: Penodiadau (ar ôl eu cwblhau)

Gwefan yr ASB

E-bost:

Twitter

LinkedIn

Arall

Os arall, rhowch ddisgrifiad:

### Holiadur Gweithgarwch Gwleidyddol

Dylai pob ymgeisydd lenwi'r holiadur hwn, sy'n ei gwneud yn bosibl i fonitro gweithgarwch gwleidyddol ymgeiswyr ar gyfer penodiad cyhoeddus i'r graddau ag y mae eisoes yn y parth cyhoeddus. Os byddwch yn llwyddiannus, caiff yr wybodaeth a ddarperir ei chyhoeddi wrth i'ch penodiad gael ei gyhoeddi

Ni fydd p'un a ydych chi'n wleidyddol weithredol mewn unrhyw ffordd yn ffactor wrth ystyried eich cais. Fodd bynnag, ni ddylai aelodau'r pwyllgorau ddal unrhyw swyddi â thâl na swyddi proffil uchel di-dâl mewn plaid wleidyddol, ac ni chânt gymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol penodol ar faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar waith y corff hwn. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu bryderon am y mater hwn, [cysylltwch â ni](#).

A fyddechystal â nodi pa rai o'r gweithgareddau canlynol rydych wedi ymgymryd â nhw yn ystod y pum mlynedd diwethaf drwy roi tic yn y blwch gyferbyn a darparu manylion eich gweithgarwch yn y blwch isod, gan gynnwys enw'r blaid neu'r corff rydych chi wedi bod yn weithgar ag ef. Os ydych wedi bod yn gynrychiolydd Annibynnol neu os ydych yn gynrychiolydd Annibynnol ar hyn o bryd, neu wedi ceisio neu wedi cael swydd fel cynrychiolydd ar ran grŵp diddordeb penodol, dylech nodi hynny.

### Gweithgarwch gwleidyddol:

Rwyf wedi (ticiwch bob categori perthnasol):

Enw'r blaid neu'r corff y cyflawnwyd y gweithgarwch ar ei rhan:

#### A:

- Cael swydd fel Cynghorydd Lleol, AS, ASE ac ati
- Sefyll fel ymgeisydd ar gyfer un o'r swyddi uchod
- Siarad ar ran plaid neu ymgeisydd

#### B:

- Gweithredu fel asiant gwleidyddol
- Dal swydd fel Cadeirydd, Trysorydd neu Ysgrifennydd cangen leol unrhyw blaid
- Canfasio ar ran plaid neu wedi helpu mewn etholiadau

## Swyddogol Sensitif: Penodiadau (ar ôl eu cwblhau)

- Ymgymryd ag unrhyw weithgarwch gwleidyddol arall yr ydych yn ystyried yn berthnasol

### C:

- Gwneud rhodd cofnodadwy i blaid wleidyddol

### D:

- Nid oes un o'r gweithgareddau uchod yn berthnasol

Manylion eich cysylltiad:

Mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol gyhoeddi cofrestr o roddion cofnodadwy (rhoddion gan unrhyw unigolyn sy'n gwneud cyfanswm o fwy na £5,000 mewn unrhyw flwyddyn galendr, neu fwy na £1,000 os cafodd ei rhoi i uned gyfrifo atodol fel cymdeithas etholaethol, cangen leol, sefydliad menywod neu ieuenctid). Daeth y darpariaethau hyn i rym o 16 Chwefror 2001.

**Llofnod:**

**Dyddiad:**

## Datgan Buddiannau

Cyn y cyfweiliad, mae'n ofynnol i'r holl ymgeiswyr ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau nad ydynt yn rhai personol. Rhaid llenwi'r ffurflen hon cyn y gellir bwrw ymlaen â'r cyfweiliad. Os byddwch yn llwyddiannus, caiff yr wybodaeth a ddarperir ei chyhoeddi wrth i'ch penodiad gael ei gyhoeddi.

## Gwahanol fathau o fuddiannau y dylid eu datgan

Mae'r canlynol yn ganllaw ar y mathau o fuddiannau y dylid eu datgan. Pan fo aelodau'n ansicr a ddylid datgan buddiant, dylent geisio cyngor gan yr Ysgrifenyddiaeth. Fodd bynnag, nid yw aelodau na'r Ysgrifenyddiaeth o dan unrhyw rwymedigaeth i chwilio am gysylltiadau na fyddent yn ymwybodol ohonynt yn *rhesymol*. Er enghraifft, naill ai trwy beidio â bod yn ymwybodol o holl fuddiannau aelodau'r teulu, neu beidio â bod yn ymwybodol o gysylltiadau rhwng un cwmni a'r llall.

**Os oes gan aelodau fuddiannau nad ydynt wedi'u nodi yn y nodiadau hyn, ond eu bod yn credu y gallai rhai ystyried bod y buddiannau hyn yn dylanwadu ar eu cyngor, dylent eu datgan. Gall methu â datgan buddiannau arwain at gael eich diswyddo o'r Pwyllgor.**

Rhaid datgan/cadarnhau pob buddiant yn flynyddol ar y ffurflen datgan buddiannau i'r Ysgrifenyddiaeth berthnasol.

## Buddiannau personol

Mae buddiant personol yn cynnwys yr aelod yn bersonol ac yn cynnwys buddiannau aelodau agos o'r teulu. Y prif enghreifftiau yw:

- **Ymgynghoriaethau a/neu gyflogaeth uniongyrchol:** unrhyw ymgynghoriaeth, cyflogaeth arall, partneriaeth, cyfarwyddiaeth neu swydd mewn diwydiant neu gorff perthnasol arall neu waith i ddiwydiant neu gorff perthnasol arall gennych chi neu aelod agos o'r teulu ac sy'n cynnwys taliadau rheolaidd neu achlysurol mewn arian parod, cydnabyddiaeth ar unrhyw ffurf arall, neu fudd arall.
- **Gwaith â Ffi:** unrhyw waith a gomisiynir neu sydd â ffi yr ydych chi neu aelod agos o'r teulu yn cael eich talu amdano mewn arian parod neu haelion (*kind*) gan gorff y diwydiant neu gorff perthnasol arall gan gynnwys Carfan Bwysu (Pressure Group) a Sefydliadau Anllywodraethol.



## Swyddogol Sensitif: Penodiadau (ar ôl eu cwblhau)

- **Cyfranddaliadau:** unrhyw gyfranddaliad neu fuddiant buddiol arall mewn cyfrannau diwydiant sydd gennych chi neu aelod agos o'r teulu. Nid yw hyn yn cynnwys cyfranddaliadau trwy ymddiriedolaethau uned neu drefniadau tebyg lle nad oes gan yr aelod unrhyw ddylanwad ar reolaeth ariannol.
- **Aelodaeth neu Gysylltiad:** unrhyw rôl aelodaeth neu gysylltiad sydd gennych chi neu aelod agos o'r teulu â chlybiau neu sefydliadau sydd â buddiant neu sy'n ymwneud â gwaith yr Adran.

## Buddiannau nad ydynt yn rhai personol

Mae buddiant nad yw'n bersonol yn cynnwys taliad sydd o fudd i adran neu sefydliad lle mae aelod yn gyfrifol, ond nad yw'r aelod yn ei dderbyn yn bersonol. Y prif enghreifftiau yw:

- **Cymrodoriaethau:** unrhyw gymrodoriaeth sydd gennych chi neu aelod agos o'r teulu ac sy'n cael ei gwaddoli (*endowed*) gan ddiwydiant neu gorff perthnasol arall
- **Cefnogaeth gan Ddiwydiant:** unrhyw daliad, cefnogaeth neu nawdd arall gan ddiwydiant nad yw'n cyfleu unrhyw fudd ariannol neu faterol i aelod yn bersonol, ond sydd o fudd i'w swydd neu adran, er enghraifft:
  - (i) Grant gan gwmni ar gyfer rhedeg uned neu adran y mae aelod yn gyfrifol amdani;
  - (ii) Grant neu gymrodoriaeth neu daliad arall i noddi swydd neu aelod o staff yn yr uned y mae aelod yn gyfrifol amdani (nid yw hyn yn cynnwys cymorth ariannol i fyfyrwyr);
  - (ii) Comisiynu gwaith ymchwil neu waith arall gan, neu gyngor gan, staff sy'n gweithio mewn uned y mae aelod yn gyfrifol amdani.

Nid oes unrhyw rwymedigaeth ar aelodau i geisio gwybodaeth am waith a wneir ar gyfer, neu ar ran, diwydiant a chyrrff perthnasol eraill gan adrannau/unedau y maent yn gyfrifol amdanynt, pe na fyddai disgwyl iddynt gael eu hysbysu fel rheol. Lle mae aelodau'n gyfrifol am sefydliadau sy'n derbyn arian gan nifer fawr iawn o gwmnïau sy'n ymwneud â'r diwydiant hwnnw a chan gyrrff perthnasol eraill, gall yr Ysgrifenyddiaeth gytuno gyda nhw ar grynodedb o fuddiannau nad ydynt yn bersonol yn hytrach na llunio portffolio manwl.

## Swyddogol Sensitif: Penodiadau (ar ôl eu cwblhau)

- **Ymddiriedolaethau:** unrhyw fuddsoddiad mewn diwydiant sydd gan elusen yr ydych chi neu aelod agos o'r teulu yn ymddiriedolwr ar ei chyfer. Pan fo aelod yn ymddiriedolwr elusen sydd â buddsoddiadau mewn diwydiant, gall yr Ysgrifenyddiaeth gytuno â'r aelod ar ddatganiad cyffredinol i gwmpasu'r buddiant hwn yn hytrach na llunio portffolio manwl.
- **Tir ac eiddo:** unrhyw dir neu eiddo y mae gennych chi neu aelod agos o'r teulu fudd uniongyrchol ynddo ac mae'n amlwg o fewn cylch gweithgareddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd.
- **Penodiadau cyhoeddus eraill:** aelodaeth gennych chi neu aelod agos o'ch teulu o awdurdodau lleol, awdurdodau ac ymddiriedolaethau iechyd, a chyirff perthnasol eraill yn y sector gwirfoddol.

Mae'r Asiantaeth wedi penderfynu na ddylai Cadeiryddion pwyllgorau cynghori gael eu cyflogi, na chael tâl cydnabyddiaeth personol, gan ddiwydiant na charfannau pwyso yn ystod telerau eu penodiad.

## Diffiniadau

Yn y Cod hwn, mae "aelodau agos o'r teulu" yn golygu partneriaid personol, rhieni, plant, brodyr, chwirydd a phartneriaid personol unrhyw un o'r rhain.

Yn y Cod hwn ystyr 'y diwydiant' yw:

- Cwmnïau, partneriaethau neu unigolion sy'n ymwneud â chynhyrchu, gweithgynhyrchu, pecynnu, gwerthu, hysbysebu, neu gyflenwi bwyd (gan gynnwys atchwanegiadau bwyd a fitaminau a mwynau), prosesau bwyd a chynhyrchion fferyllol, neu gynhyrchion perthnasol eraill, yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth ganlynol;
  - Deddf Diogelwch Bwyd 1990
  - Deddf Meddyginiaethau 1968 a 1971
  - Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985
  - Deddf Diogelu Defnyddwyr 1987
  - Rheoliadau Cosmetig (Diogelwch) (Diwygio) 1987
  - Rheoliadau Hysbysu Sylweddau Newydd 1993

## Swyddogol Sensitif: Penodiadau (ar ôl eu cwblhau)

- Cymdeithasau masnach sy'n cynrychioli cwmnïau sy'n ymwneud â chynhyrchion o'r fath; Cwmnïau, partneriaethau neu unigolion sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ymchwil, datblygu neu farchnata cynnyrch bwyd neu gynnyrch fferyllol sy'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor.

Yn y Cod hwn mae **'cyrff perthnasol eraill'** yn cyfeirio at sefydliadau (nad ydynt wedi'u cynnwys yn y diffiniad o 'diwydiant') sydd â buddiannau sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor. Gallai hyn gynnwys sefydliadau elusennol, pleidiau gwleidyddol a grwpiau llobio.

Yn y Cod hwn mae'r **'ysgrifenyddiaeth'** yn cyfeirio at ysgrifenyddiaeth y pwyllgor unigol dan sylw.

## Datgan buddiannau a chymryd rhan mewn cyfarfodydd

Mae'n ofynnol i aelodau'r pwyllgor ddatgan unrhyw fuddiannau masnachol uniongyrchol, neu fuddiannau aelodau agos o'r teulu, mewn materion sy'n cael eu trafod ym mhob cyfarfod. Ar ôl egluro natur eu buddiannau yn llawn, gall y Cadeirydd, ar ôl ymgynghori ag aelodau eraill sy'n bresennol, benderfynu a ddylai'r aelod, ac i ba raddau, gymryd rhan yn y drafodaeth a'r penderfyniad ar y mater. Os penderfynir y dylai'r aelod adael y cyfarfod, gall y Cadeirydd ganiatáu iddynt wneud datganiad ar yr eitem dan sylw yn gyntaf. Pan fo aelodau'n ansicr a ddylid datgan buddiant, dylent geisio cyngor gan y Cadeirydd. Mae penderfyniad y Cadeirydd, ar ôl ymgynghori â'r Ysgrifenyddiaeth, yn derfynol.

Defnyddiwch yr holiadur ar y dudalen ganlynol i ddatgan buddion perthnasol, fel y disgrifir uchod.

**O dan arweiniad y Cod Ymarfer ar Ddatgan Buddiannau, hoffwn ddatgan i Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd mai'r rhain yw fy unig fuddiannau:**

## Buddiannau personol

1. Cyflogaeth uniongyrchol
2. Ymgynghoriaethau a gwaith arall â ffi
3. Cyfranddaliadau

## Swyddogol Sensitif: Penodiadau (ar ôl eu cwblhau)

- 4. Clybiau a sefydliadau eraill
- 5. Buddiannau personol eraill

## Buddiannau nad ydynt yn rhai personol

- 6. Cymrodoriaethau
- 7. Cymorth anuniongyrchol
- 8. Ymddiriedolaethau
- 9. Tir ac eiddo
- 10. Penodiadau cyhoeddus eraill

## Safonau mewn bywyd cyhoeddus a sicrhau hyder y cyhoedd

A oes unrhyw faterion yn eich hanes personol neu broffesiynol (gan gynnwys unrhyw gollfarnau neu fethdaliadau), neu ddatganiadau cyhoeddus a wnaethoch, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol, y gellid, pe byddech chi'n cael eich penodi, eu camddehongli, achosi embaras i'r ASB neu'r Cyngor Gwyddoniaeth, neu beryglu hyder y cyhoedd yn ehangach?

Byddwch yn ymwybodol y gall eich cyfryngau cymdeithasol gael eu hadolygu gan y tîm recriwtio yn ystod y broses sifftio.

Nac oes

Oes

Os 'oes', rhowch fanylion yma:

**Llofnod:**

**Dyddiad:**

## Swyddogol Sensitif: Penodiadau (ar ôl eu cwblhau)

### Cynllun Gwarantu Cyfweliad a chymorth ar gyfer cyfweliad

Os oes gennych chi anabledd a ddiffinnir gan y [Ddeddf Cydraddoldeb](#), rydych chi'n gymwys i wneud cais trwy'r [Cynllun Gwarantu Cyfweliad](#) ar gyfer y penodiadau hyn.

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi gael nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol [sylweddol a hirdymor](#) ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. I gael rhagor o ganllawiau, gweler Atodiad 5 y Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr.

**Os ydych chi'n meddwl eich bod chi'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y Cynllun Gwarantu Cyfweliad, a hoffech chi gael eich ystyried ar gyfer y cynllun?**

Hoffwn

Na hoffwn

### Cymorth ar gyfer Cyfweliadau

Er mwyn sicrhau nad ydym ni'n creu unrhyw rwystrau yn ein proses ddethol ac i'n helpu i weithredu ein polisi cyfle cyfartal yn effeithiol, rhowch wybod a hoffech i ni ddarparu unrhyw gymorth penodol ar gyfer eich cyfweliad ac, os cewch eich penodi, eich perfformiad yn y swydd, trwy ateb y cwestiynau isod.

Disgrifiwch eich anabledd:

**A fydd angen addasiad rhesymol arnoch yn ystod y camau dethol?**

Er enghraifft, efallai y bydd angen mynediad i gadair olwyn arnoch mewn cyfweliad.

Bydd

Na fydd

Os bydd, ewch ati i lenwi'r adran nesaf.

## Swyddogol Sensitif: Penodiadau (ar ôl eu cwblhau)

Ticiwch isod i ddangos pa gymorth sydd ei angen arnoch ar gyfer eich cyfweiliad:

- Dolen sain (*induction loop*)
- Dehonglydd iaith arwyddion (math: \_\_\_\_\_ )
- Allweddell ar gyfer profion ysgrifenedig (os yw'n berthnasol)
- Rhywun gyda chi yn y cyfweiliad (er enghraifft, hwylusydd lleferydd)
- Rhywle i barcio eich car
- Cymorth wrth fynd i mewn neu allan o gerbyd
- Mynediad i gadair olwyn
- Cymorth arall, nodwch:

Disgrifiwch unrhyw drefniadau arbennig a fyddai'n eich helpu i gyflawni dyletswyddau penodiadau cyhoeddus:

## Swyddogol Sensitif: Penodiadau (ar ôl eu cwblhau)

### Rhestr wirio ar gyfer ffurflenni eraill

\* Yn dynodi bod ffurflen yn orfodol

Rwy'n atodi Holiadur Gweithgarwch Gwleidyddol \*

Rwy'n atodi Datganiad o Fuddiannau wedi'i gwblhau \*

Rwy'n atodi copi cyfredol o fy CV

Rwy'n atodi Holiadur Monitro.

Os oes gennych chi anabledd a ddiffinnir gan y [Ddeddf Cydraddoldeb](#), rydych chi'n gymwys i wneud cais trwy'r [Cynllun Gwarantu Cyfweliad](#) ac i gael cymorth mewn cyfweliadau.

Rwy'n atodi Holiadur wedi'i gwblhau ar Gymorth ar gyfer Cyfweliadau

**Rwy'n datgan bod yr wybodaeth a roddir ar fy nghais a ffurflenni eraill, yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Byddaf yn rhoi gwybod i'r ASB ar unwaith am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar yr atebion a roddais.**

Llofnod:

Dyddiad:

